**Cylch gorchwyl gweithgor diwygio TGAU Cymraeg Ail Iaith**

## 1. Nod

I gynnig cyngor i Cymwysterau Cymru ar ddiwygio TGAU Cymraeg Ail Iaith, er mwyn sicrhau fod y cymhwyster newydd yn diwallu anghenion dysgwyr yn ystod y cyfnod o ddatblygu a chyflwyno cwricwlwm newydd.

## 2. Cefndir

Cymwysterau Cymru sydd yn gyfrifol am y rhaglen o ddiwygio cymwysterau TGAU a Safon Uwch. Fel rhan o'r rhaglen honno, bydd TGAU Cymraeg Ail Iaith yn cael ei ddiwygio mewn pryd i'w addysgu o fis Medi 2017.
Bydd y cymhwyster newydd yn cael ei ddatblygu gan CBAC yn seiliedig ar feini prawf cymeradwyo a gaiff eu pennu gan Cymwysterau Cymru.
Mae Cymwysterau Cymru wedi sefydlu y gweithgor hwn i ystyried ac i estyn cyngor ar sut i ddylunio a chyflwyno'r cymhwyster newydd.

## 3. Gorchwyl

Bydd gofyn i'r Grŵp ystyried ac i roi sylwadau a chyngor i Cymwysterau Cymru ynglŷn â:

- Gofynion penodol y dylid eu hadlewyrchu yn y meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymhwyster, gan gynnwys:
  - Ei brif amcanion;
  - Y dulliau asesu mwyaf priodol ac effeithiol i gefnogi amcanion y cymhwyster, ac addysgu a dysgu effeithiol, tra'n sicrhau dilysrwydd a dibynadwyaeth;
  - Geiriad a phwysoli y nodau asesu;
  - Cynnwys y cymhwyster.
- Dyluniad a strwythur arfaethedig y fanyleb a'r deunyddiau asesu enghreifftiol.
- Goblygiadau dyluniad y cymhwyster i ysgolion, colegau ac i'r gweithlu, a chynnig syniadau ymarferol am y camau y gellid eu cymryd i'w cefnogi i baratoi ar gyfer y newidiadau.
- Sut y gall y fanyleb newydd arwain y ffordd tuag at ddatblygiadau i sefydlu continwwm ieithyddol.

## 4. Aelodaeth

Cymwysterau Cymru sydd yn gyfrifol am sefydlu a diddymu y gweithgor ac am bennu a diweddaru ei gylch gorchwyl.

Bydd y gweithgor yn cynnwys cynrychiolaeth gan:

- Cymwysterau Cymru
- CBAC
- Athrawon cyfredol
- Llywodraeth Cymru
- Estyn
- Hyfforddiant gychwynnol i athrawon
- Endid Cenedlaethol Cymraeg i oedolion
- Addysg uwch
- Addysg bellach

## 5. Trefniadau ymarferol a gweinyddol

Bydd swyddogion Cymwysterau Cymru yn gyfrifol am drefniadau gweinyddol y gweithgor.